(f) Sicrhau fod gweithwyr newydd yn cael eu hysbysu o bolisi'r ysgol ar Iechyd a Diogelwch, a'u bod yn derbyn copi o'r polisi ac yn cael eu gwneud yn ymwybodol o unrhyw beryglon penodol neu drefniadau diogelwch yn eu maes hwy o waith e.e. lleoliad asbestos.

(ff) Cadw golwg ar y ddarpariaeth a'r defnydd o unrhyw ddillad ac offer Amddiffynnol (PPE).

(g) Llunio Asesiad Risg Tân ysgol gyfan a gweithredu yn ôl yr angen. Sicrhau fod trefniadau cywir yn cael eu gwneud er mwyn gwacáu yr adeilad yn effeithiol mewn argyfwng a bod offer ymladd tân ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n gywir.

(ng) Trefnu ar gyfnodau addas fod yr adeilad yn cael ei archwilio am beryglon tân gan swyddog cymwys. **Adolygu blynyddol - yr Asesiad Risg Tân.**

(h) Peidio â pheryglu'r hunain nac eraill trwy weithio'n beryglus neu trwy weithio heb ddilyn yr Asesiadau Risg, Dulliau Gweithio diogel neu ganllawiau perthnasol yn y maes.

(i) Llunio Polisi Cloi Lawr.

6. Cyfrifoldeb Penaethiaid Adran yw :

(a) Sicrhau cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau'r Ddeddf I&D, Rheoliadau ychwanegol **yr ACOP (Approved Codes of Practice) a'r Cyfarwyddyd (Guidance) (cyfreithiol, ymarfer gorau) yn y maes perthnasol.**
Llunio asesiadau risg ar gyfer pob sefyllfa berthnasol o fewn yr Adran. Sicrhau cydymffurfiaeth staff yr Adran gyda'r holl ofynion. Cydweithio gyda'r Swyddog I&D.

(b) Bod yn ymwybodol o asesiad risg tân lawn sydd wedi ei lunio ar gyfer yr ysgol gyfan. Cydweithio gyda'r swyddog I&D ar holl faterion tân.

(c) Sicrhau y gweithredir arferion da o gadw trefn ar waith papur yn ymwneud ag achosion I&D gan gynnwys tân o fewn yr Adran a bod pob llwybr ac allanfa/drws tân yn glir pob amser.

(b) Derbyn oddi wrth aelodau ei h/adran fanylion am unrhyw faterion Iechyd a Diogelwch sy'n codi o bryd i'w gilydd gan ddilyn y rhain ymhellach gyda'r Swyddog Iechyd a Diogelwch.

(c) Sicrhau fod arwyddion rhybudd a threfniadau diogelwch arbennig yn cael eu harddangos yn eglur gan gynnwys arwyddion tân.

(ch) Cadw golwg cyson i weld a yw ei h/adran yn cydymffurfio â'r polisi Iechyd a Diogelwch.

(d) Sicrhau darpariaeth dillad ac offer amddiffynnol priodol gan sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio, eu cynnal a'u cadw a'u hadnewyddu pan fo angen.

(e) Llunio Asesiadau Risg/Systemau Gweithio'n ddiogel a chyfarwyddiadau yn y sffêr arbenigol o waith - ee Ymarfer Corff, DT, Gwyddoniaeth, Celf, Technoleg Bwyd a Thecstilau, Drama.

(f) Peidio â pheryglu'r hunain nac eraill trwy weithio'n beryglus neu trwy weithio heb ddilyn yr Asesiadau Risg, Dulliau Gweithio diogel neu ganllawiau perthnasol yn y maes.

Cyfrifoldeb pob Gweithiwr yw:

(a) Bod yn ymwybodol o bolisi'r Awdurdod Addysg a'r ysgol ar Iechyd a Diogelwch a chymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio'n llwyr.

(b) Hysbysu Pennaeth yr Adran neu'r Swyddog Iechyd a Diogelwch cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib o unrhyw beryglon sy'n codi a chymryd camau uniongyrchol i sicrhau fod y safle yn ddiogel i weithwyr eraill a/neu ddisgyblion ac ymwelwyr.

(c) Gwybod a gweithredu'r trefniadau ar gyfer argyfwng e.e. trefniadau gwacáu, lleoliad offer diffodd tan, cymorth cyntaf a'r trefniadau a gytunwyd ar gyfer delio â damwain.

(ch) Os trefnir teithiau addysgiadol o unrhyw fath bod yn ymwybodol o'r gofynion ar drefnwyr teithiau e.e. gwneud asesiadau risg a chydweithio yn agos gyda'r Swyddog Teithiau Addysgiadol (SAT/CEJ) trwy wneud cais swyddogol i drefnu taith.

(d) Peidio â pheryglu'r hunain nac eraill trwy weithio'n beryglus neu trwy weithio heb ddilyn yr Asesiadau Risg, Dulliau Gweithio diogel neu ganllawiau perthnasol yn y maes.

8. Asesiad Risg

Mae'r rheolau yn gofyn:-

1. I bob cyflogwr wneud asesiad addas a digonol o -

   (a) y risgiau i iechyd a diogelwch y mae ei weithwyr yn eu hwynebu tra yn y man gwaith; a

   (b) y risgiau i iechyd a diogelwch personau nas cyflogir ganddo ond sy'n deillio o'i weithredoedd.

   er mwyn gwybod pa fesurau y mae angen iddo eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r gofynion a'r gwaharddiadau a roddir arno gan neu o dan y ddarpariaeth statudol berthnasol.

2. Caiff unrhyw asesiad fel yr un y cyfeirir ato ym mharagraff (1) ei adolygu gan y cyflogwr neu'r person hunangyflogedig a'i gwnaeth os -

   (a) oes achos i amau nad yw bellach yn ddilys; neu

   (b) bu newid arwyddocaol yn y materion y maent yn berthnasol iddynt; a lle bo newidiadau yn angenrheidiol o ganlyniad i asesiad o'r fath, y cyflogwr neu'r person hunangyflogedig ddylai eu gwneud.

3. Bydd y cyflogwr yn cofnodi -

   (a) canfyddiadau arwyddocaol yr asesiad; a

   (b) unrhyw grŵp o'i weithwyr y sylweddolir eu bod nhw yn arbennig mewn perygl.

Mewn ysgolion a sefydliadau eraill yn perthyn i Awdurdod Addysg, dirprwyir cyfrifoldeb yr Awdurdod Addysg i'r Cyrff Llywodraethol, Prifathrawon ac Uwch-reolwyr a fyddant efallai yn eu tro yn ei ddirprwyo i Benaethiaid Adrannau neu eraill. Y gofyn yw bod y risgiau yn

cael eu hasesu gan berson cymwys (**person cyfrifol**). Er enghraifft, bernir fod athro cymwys o statws Pennaeth Adran yn addas i asesu'r risgiau a achosir gan beryglon yn ei Adran ddysgu ei hun ac i awgrymu a gweithredu rheoliadau i leihau'r risgiau i lefel dderbyniol.

h.y. -

Bydd Pennaeth yr Adran Wyddoniaeth yn ystyried peryglon yn y Labordy Cemeg fel storio a defnyddio cemegau, goruchwyliaeth addas gan athro cymwys, defnydd o offer addas ac.y.y.b., ac efallai y bydd yn barnu fod gweithgareddau/cemegau penodol yn anaddas i ddisgyblion eu defnyddio. Efallai y bydd yn nodi uchafswm nifer o ddisgyblion sy'n dderbyniol ymhob labordy er mwyn medru eu goruchwylio yn effeithiol ac.y.y.b. (cynhwysir y wybodaeth a'r argymhellion yma yn nogfen bolisi'r Adran Wyddoniaeth.)

Bydd y pennaeth Ymarfer Corff yn gwneud asesiad tebyg o'r peryglon mewn Ymarfer Corff a bydd yn nodi ymarferion gwaith diogel sydd y tu hwnt i ystyriaethau bob dydd ond a ddylai fod o fewn cyfrifoldeb pob athro e.e. mewn gweithgareddau gwahanol, efallai y bydd cymarebau disgybl/staff gwahanol yn addas i ganiatáu goruchwyliaeth gymwys.

Bydd Pennaeth DT/Celf/Gwyddoniaeth/Drama/YC/Adnoddau Canolog yn ystyried y peryglon sydd ynghlwm a defnyddio peiriannau a sicrhau, fel rhan o'r asesiad risg bod cynnal a chadw digonol yn unol â Rheoliadau PUWER (use of work equipment regulations 1998) a LOLER (Lifting operations and lifting equipment regulations) yn cymryd lle.

Mae'r Rheol hon yn gofyn i bob cyflogwr a pherson hunangyflogedig i asesu'r risgiau i weithwyr ac eraill a all gael eu heffeithio gan eu hymrwymiad. Mae'n rhaid i gyflogwyr sydd â phump neu fwy o weithwyr hefyd gofnodi canfyddiadau arwyddocaol eu hasesiad.

Mae nifer o gyflogwyr eisoes yn gwneud asesiadau risg "de facto" o ddydd i ddydd yn ystod gwrs eu gwaith; maent yn nodi gwahaniaethau yn yr ymarfer gwaith, maent yn sylwi ar ddiffygion wrth iddynt godi ac fe fyddant yn gwneud yr hyn sydd ei angen er mwyn eu cywiro. Mae'r Rheol hon er hynny yn gofyn i gyflogwyr ymgymryd ag archwiliad cyffredinol cyfundrefnol o'u gweithgaredd gwaith a gofyn iddynt gofnodi canfyddiadau arwyddocaol yr asesiad risg hwnnw.

Dylai asesiad risg fel arfer cynnwys adnabod y peryglon sy'n bresennol mewn unrhyw ymrwymiad (boed yn codi o weithgareddau gwaith neu o ffactorau eraill, e.e. sut mae pethau wedi eu gosod yn yr adeilad) ac yna pwyso a mesur maint y risgiau sydd o dan sylw, gan ystyried pa gamau angenrheidiol sydd eisoes wedi eu cymryd. Er pwrpas y ddogfen hon:-

(a) perygl yw rhywbeth sydd â'r potensial i achosi niwed (gall hyn gynnwys deunyddiau neu beiriannau, dulliau gwaith ac agweddau eraill ar drefniadaeth gwaith);

(b) mae risg yn cydnabod bod perygl penodol yn debygol o beri niwed

(c) mae maint y risg yn cynnwys y boblogaeth a all gael ei heffeithio gan risg; h.y. y nifer o bobl all fod yn agored i'r risg a'i ganlyniadau.

Mae risg felly yn adlewyrchu'r tebygolrwydd y bydd niwed yn digwydd a'i ddifrifoldeb.

Mewn rhai achosion, efallai ni fydd y dull manwl yn angenrheidiol gan y bydd yr holl beryglon yn wybyddus a'r risgiau yn amlwg eisoes ac felly mae'n bosib eu taclo yn uniongyrchol.

Dylai risgiau arwyddocaol gael eu cydnabod. Er hynny, gall risgiau dibwys fel arfer cael eu hanwybyddu fel y gall risgiau sy'n codi o weithgareddau arferol sy'n gysylltiedig â bywyd bob dydd, oni bai fod y gweithgaredd gwaith yn cynnwys y risgiau hynny neu fod tystiolaeth o berthnasedd arwyddocaol i'r gweithgaredd gwaith.

Lle ymgymerir â meysydd gwaith newydd neu ymarferion gwaith newydd, dylai'r asesiad risg gael ei adolygu ac arferion eu newid lle bo angen. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai asesiadau warantu hyn. Dylai adolygiadau o'r fath ffurfio ymarfer rheolaeth statudol.

Yn ymarferol:

1. Cydnabod y perygl (h.y. yr agweddau hynny ar waith sydd â'r potensial i achosi niwed e.e. deunyddiau, offer, prosesau neu drefniadaeth gweithgaredd).

2. Penderfynu pwy sy'n cael ei effeithio gan y perygl. Cofiwch ystyried pob un, ond yn arbennig yr ifanc, y dibrofiad, a'r rheiny sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain.

3. Penderfynu pa mor ddifrifol yw'r risg h.y. pa mor debygol yw hi y bydd niwed yn digwydd.

4. Edrych ar fesurau rheoli sy'n bodoli eisoes, sydd yno i leihau'r risg a phenderfynwch a yw'r rhain yn addas. Os nad ydynt awgrymwch rai ychwanegol.

5. Cofnodi'r risg, y boblogaeth a all gael eu heffeithio, a'r mesurau a gymerwyd i'w reoli. Gall hwn fod yn gofnod ysgrifenedig neu yn gofnod a recordiwyd yn electronig cyn belled â'i bod yn bosib i'w basio ymlaen i'r personau addas a'i bod yn bosib ei adfer er mwyn ei archwilio.

Mesurau Arbedol ac Amddiffynnol

Mae'r mesurau arbedol ac amddiffynnol y mae'n rhaid eu cymryd yn dilyn asesiad risg yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth berthnasol - y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a deddfwriaethau sy'n ymwneud â pheryglon neilltuol neu sectorau o waith -a'r asesiad risg. Wrth benderfynu ar y mesurau dylai cyflogwyr a'r hunangyflogedig gadw'r egwyddorion canlynol mewn cof:

(a) mae bob amser yn well os yn bosib osgoi risg yn gyfan gwbl, e.e. trwy beidio â defnyddio neu storio deunydd peryglus neu eitem neilltuol os nad yw'n hanfodol i'r gwaith;

(b) ewch at wraidd y risg, yn hytrach na defnyddio mesurau i'w leihau.

Felly, os yw'r grisiau yn llithrig, mae eu trin neu roi rhai newydd yn eu lle yn well na darparu arwydd rhybuddio;

(c) cymrwch fantais o gynnydd technolegol a thechnegol, sydd yn aml yn cynnig cyfleoedd i wella dulliau gweithio a'u gwneud yn fwy diogel;

(ch) rhowch flaenoriaeth i'r mesurau hynny sy'n amddiffyn y man gwaith yn gyfan gwbl a phob un sy'n gweithio yno, a thrwy hynny ennill y budd mwyaf; h.y. rhowch flaenoriaeth i fesurau amddiffynnol casgliadol tros fesurau unigol;

(d) mae angen i weithwyr, bod yn weithwyr i'r awdurdod neu'n hunan- gyflogedig ddeall yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud.

(dd) mae angen i ddisgyblion gael ymwybyddiaeth o ddiogelwch ymhob sefyllfa.

Cynghorir Llywodraethwyr, Penaethiaid, yr Uwch-reolwyr a'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch i gael gafael ar, a darllen y ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch newydd, y dyfynnir rhan ohoni uchod.

Rhestr hanfodol Asesiad Risg y Pennaeth Adran:

A ydych wedi ystyried:

Pa mor hawdd yw mynd at beirianwaith/offer?
Man storio cemegau/offer
Man storio offer all fod yn beryglus
Rheolau o safbwynt cypyrddau mwg
Deunyddiau glanhau
Lefelau glanweithdra
Diogelwch offer trydanol
Risgiau llosgi
Osgoi TÂN
Pa mor hawdd yw dod o hyd i offer Cymorth Cyntaf?
Labeli offer a sylweddau peryglus.
Pa mor addas yw'r dodrefn i'r amgylchfyd, a'i bwrpas?
Cael gwared ar wastraff
Archwilio a chywiro offer yn gyson gan gynnwys lifftiau, offer codi a llestri gwasgedd
Y defnydd o gyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr a pha mor hawdd yw dod o hyd iddynt
Lefelau gormodedd o sŵn
Y defnydd o ddillad amddiffynnol arbennig a pha mor hawdd yw dod o hyd iddynt
Awyriad addas o'r amgylchfyd.
Canllawiau Trefnu Gwibdaith + Asesiad Risg Teithiau

8. Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ac Adeiladau Llywodraethwyr yr Ysgol

Bydd y Pwyllgor yn rhoi adroddiadau i'r Corff Llywodraethwyr llawn. Aelodaeth i gynnwys cynrychiolaeth staff a rhieni.

Materion i'w trafod

Bydd y gweithgor yn cyfarfod yn dymhorol neu yn ôl yr angen i ystyried:-

(a) Materion Iechyd a Diogelwch a godir gan y Pennaeth ar ran yr AALl.

(b) Ystyried y Bwletin misol I&D sy'n cael ei gyfleu i holl staff yr ysgol ar faterion cyfredol yn ymwneud a materion I&D ac sy'n digwydd o leiaf unwaith y mis.

(c) Deddfwriaeth newydd a gwybodaeth.

(ch) Ymarferion gweithio neu amgylchoedd newydd.

(d) Adroddiadau am ddigwyddiadau ac archwiliadau Iechyd a Diogelwch.

(dd) Monitro Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch.

(e) Canlyniadau asesiadau risg a wneir gan Benaethiaid Adrannau ac unrhyw faterion sy'n codi.

Bydd cofnodion pob cyfarfod yn cael eu cadw gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch a Chlerc y Corff Llywodraethol.

10. Monitro, Archwilio a Hyfforddiant

(a) Mae polisi'r Awdurdod Addysg yn cynnwys elfen o fonitro pob ysgol.

(b) Cyfrifoldeb y Pennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol yw sicrhau fod pob un yn ymwybodol o'r polisi Iechyd a Diogelwch a'i oblygiadau.

(c) Trefnir Calendar Archwiliadau Peryglon Arbennig yn deillio o daflen fonitro i'w chwblhau ar gychwyn pob tymor gan Reolwyr.

(ch) Trefnir bod yr ymarferiad asesiad risg tan yn cael ei adolygu yn flynyddol gyda'r Penaethiaid Adran.

(d) Mae'n rhan o swyddogaeth y Swyddog Iechyd a Diogelwch i archwilio adrannau o'r ysgol yn gyson i asesu cydymffurfiaeth â'r polisi.

(dd) Trefnir Adolygiad Polisi I&D pob blwyddyn ar draws yr ysgol.

(f) Trefnir hyfforddiant yn ôl yr angen.

Manylion ychwanegol – trefniadaeth/dogfennaeth: -

Dillad Amddiffynnol

- Darperir dillad amddiffynnol yn ôl yr angen. Gwahoddir ceisiadau wrth staff am ddillad/offer amddiffynnol yn unol ag Asesiadau Risg/Cynlluniau gweithredu diogel - h.y. drwy'r **Bwletin I&D mewnol**.

Adrodd a chofnodi damweiniau

- Y mae'r ysgol yn dilyn canllawiau'r AALl ar gofnodi pob damwain/digwyddiad ar safle'r ysgol.

- Cwblheir y ffurflenni cofnodi damweiniau yn ol yr angen HS1, HS2 a HS3 a danfonir y rhain ymlaen at sylw'r Sir (Corporate H&S and Wellbeing Service) sy'n archwilio'r ffurflenni ac yna o bosib yn arall gyfeirio'r ddamwain/digwyddiad at yr HSE.

Amgylchedd a Safle Ysgol Ddiogel

- Y mae'r ysgol yn gweithio'n ddyfal ar lefel dyddiol i gynnal a chadw safle glan a diogel.

- Cyflogir Rheolwr Safle a Rheolwr Cyfleusterau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r holl Reoliadau statudol sy'n ymwneud â'r safle. Cyflogir tim o staff safle I gynorthwyo gyda cynnal a chadw safle glan a diogel ar bob achlysur.

- Cyflogir Swyddog Diogelwch i fod yn gyfrifol am y gatiau allanol/maes parcio.

- Mae'r Swyddog Diogelwch yn holi pob ymwelydd â'r safle ynglŷn â phwrpas a busnes yn yr ysgol. Cyd-gysylltir a throsglwyddir gwybodaeth i'r brif dderbynfa.

- Y mae'r Swyddog Dogelwch yn sicrhau diogelwch y disgyblion ar y buarth (sydd hefyd - yn rhannol, yn faes parcio) ac yn sicrhau nad yw cerbydau'n symud o gwmpas y disgyblion wrth iddynt chwarae, mynd o wers i wers neu o gwmpas cerddwyr yn gyffredinol megis staff ac ymwelwyr.

- Cynhelir Arolwg Safle manwl pob tymor a throsglwyddir y wybodaeth at sylw Pwyllgor I&D y Corff Llywodraethol. Paratoir rhestr o waith wedi ei flaenoriaethu fesul dyddiad cwblhau. Y mae'r Rheolwr Cyfleusterau yn cymryd gofal o'r gwaith neu ei arall gyfeirio at staff safle.

- Y mae'r Rheolwr Safle/Rheolwr Cyfleusterau a'r staff safle yn monitro cyflwr y safle'n ddyddiol. Y mae'r ysgol yn ymateb heb oedi i unrhyw fater I&D neu ddiffyg yn yr adeiladau/safle sydd angen sylw brys. Cedwir dyddiadur o waith brys dyddiol yn electronig gan y Rheolwr Safle.

- Y mae'r Rheolwr Safle/Rheolwr Cyfleusterau yn cydweithio ar lefel dyddiol gyda swyddogion arbenigol y Sir ac yn ymateb i argyfyngau adeiladau/safle yn ôl yr angen **heb oedi**.

- Y mae staff yr ysgol yn ymwybodol o'r ddyletswydd i adrodd 'nôl at y Pennaeth unrhyw fater sy'n peryglu I&D ac sydd angen sylw'n syth. Hysbyswyd staff fesul y **Bwletin I&D mewnol** o'r cyfrifoldeb**.**

- Cyflogir tîm safle i ymdrin â diogelwch, diogelwch tân, sbwriel, ail gylchu a thîm o lanhawyr (ar derfyn pob diwrnod ysgol) er mwyn sicrhau safle glan a diogel.

- Darperir dŵr yfed glan i'r disgyblion a'r staff – unedau wedi eu lleoli ger ardaloedd y toiledau (merched a bechgyn) a hefyd yn y ffreutur.

- Darperir toiledau glan a digonol i'r disgyblion a'r staff.

Gwarchod Amser Egwyl a Chinio a Dyletswydd Bws

- Y mae'r ysgol yn cyflogi cyd-gysylltydd i fod yn gyfrifol am y tîm gwarchod amser cinio (BL/REC).

- Cyflogir gwarchodwyr digonol gogyfer â'r gwaith o warchod holl ddisgyblion yr ysgol dros yr awr ginio – 14 mewn cyfanswm.

- Mae pob aelod o'r tîm wedi derbyn hyfforddiant Cymorth Cyntaf sylfaenol - sy'n gyfredol o Fedi 2025.

- Mae'r tîm yn ymwybodol o gyfrifoldebau TÂN h.y. ar ganiad y gloch tân dylid tywys disgyblion I'r MUGA a'u hannog i fynd i'r rhestri dosbarth mewn parodrwydd i'w cofrestru.

- Mae staff yn ymwybodol o'r drefn CLOI LAWR h.y. y dylid cadw disgyblion o fewn yr adeiladau a chloi'r drysau allanol. Mae'r ysgol yn cynnwys drill yn rheolaidd.

- Mae'r cyd-gysylltydd yn darparu cyfarwyddyd o ran yr ardal warchod i holl aelodau'r tîm yn unigol ac yn cyd-gysylltu gwybodaeth yn ôl yr angen.

- Mae'r tîm yn cytuno Asesiadau Risg ar y cyd.

- Mae'r cyd-gysylltydd yn dosbarthu disgrifiad swydd, asesiadau risg generig o ran y buarth, ardal offer chwarae a'r meysydd chwarae i'r tîm.

- Mae'r cyd-gysylltydd yn cadw manylion ynglŷn â chynnal a chadw a diogelwch yr offer chwarae mewn ffeil ganolig.

- Darperir dillad amddiffyn rhag y tywydd garw/ymbarél a chwiban i arbed y llais i bob aelod o'r tîm.

- Y mae'r staff dysgu (fesul rota) yn gwarchod cyfnodau Eglwyl yn unol a chyfarwyddiadau Mrs Sara Thomas (Pennaeth Cynorthwyol / Iechyd a Lles).

- Mae aelodau o'r TRU/staff yn sicrhau diogelwch disgyblion wrth y safle bysus ar gychwyn ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Darperir dillad amddiffyn rhag y tywydd ac sy'n ddigon llachar i weithio mewn ardal lle mae bysys (trafnidiaeth) yn symud.

Llunio Asesiadau Risg

- Y mae'r ysgol yn llunio asesiadau risg yn ôl yr angen.

Rheoliadau COSSH

- Mae'r Adran Wyddoniaeth, yn llunio Asesiadau Risg arbenigol yn y meysydd penodol o drafod/arbrofi gyda chemegau, toddyddion neu sylweddau peryglus sy'n rhan o'r broses addysgu/dysgu.

- Yn gyffredinol, mae'r staff eisoes wedi derbyn gwybodaeth ar sut i lunio Asesiad Risg COSSH os ydynt yn defnyddio sylweddau neu doddyddion megis glud o fewn yr Adran yn rhan o'r broses addysgu/dysgu. Hysbyswyd staff fesul y **Bwletin I&D mewnol**.

- Y mae'r ysgol yn llunio asesiadau risg yn ôl yr angen.

Rheolau Ymbelydredd

- Y mae'r Adran Wyddoniaeth yn llunio Asesiadau Risg arbenigol yn ôl yr angen.

Rheolau Dril TÂN ac Arbed TÂN

- Y mae gan yr ysgol **Asesiad Risg TÂN** yn (diweddarwyd Medi 2025).

- Y mae'r ysgol yn darparu manylion **Rheolau TÂN** i holl staff yr ysgol yn cynnwys staff glanhau/staff y gegin (diweddarwyd Medi 2025). Mae staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

- Y mae'r ysgol wedi llunio manylion **Canllawiau Gweithredu Normal** (Normal Operating Procedures) Medi 2025.

- Y mae pob aelod o'r staff wedi derbyn copi o'r dogfennau hyn (Medi 2025) yn y **Bwletin I&D mewnol**. Gweler y dogfennau'n amgaeedig.

- Y mae'r ysgol yn trefnu dril tân o leiaf unwaith y tymor ac yn annog y staff i adrodd nôl ar unrhyw broblemau a brofwyd ganddynt yn ystod y broses gwacau.

- Y mae'r ysgol yn cydymffurfio gyda'r holl ofynion o ran cynnal a chadw offer tân sy'n cynnwys y larymau, 'sprinkler system' y bloc dysgu newydd, golau argyfwng, offer i ddiffodd tân mewn argyfwng ac yn y blaen.

- Mae'r ysgol wedi penodi tîm tân yn cynnwys Marsialiaid TÂN i sgubo'r ysgol ar ganiad y gloch DÂN.

- Mae'r tîm tân yn gweithredu yn unol ag arolygaeth Mr Jeffrey Connick yr Uwch Swyddog TÂN sy'n gyfrifol am y broses gwacau mewn argyfwng.

- Mae'r Uwch Swyddog TÂN yn dirprwyo cyfrifoldebau yn ôl yr angen.

- Mae'r Rheolwr Safle yn gwirio rhestr absenoldeb staff yn ddyddiol er mwyn sicrhau bod goruchwyliaeth y tîm Marsialiaid TÂN yn gyflawn ar bob achlysur.

Cloi Lawr

- Mae gan yr ysgol bolisi Cloi lawr 2025

- Mae'r staff yn ymwybodol o fanylder y polisi fesul y Bwletin I&D Hydref 2025

- Mae'r staff yn ymwybodol o'r arwydd i gloi lawr sy'n wahanol i'r arwydd i wacau mewn argyfwng.

- Mae'r ysgol yn cynnal drill cloi lawr yn rheolaidd – oleiaf unwaith y flwyddyn

Teithiau Ysgol

- Y mae gan yr ysgol ganllawiau pendant ynglŷn â threfnu teithiau.

- Hysbysir y staff o'r drefn fesul **y Bwletin I&D mewnol** - gweler isod.

- Rhaid i bob athro sy'n trefnu taith gwblhau a ffurflen EV1 + llunio asesiad risg - canllawiau'r Sir EVOLVE. Y mae'r ysgol yn ymrwymo i ddilyn y canllawiau yn eu cyfanrwydd - Adolygwyd: Tymor yr Haf 2026.

- **Dyma'r Canllawiau i Athrawon sy'n Trefnu Gwibdaith/Taith Oddi ar Safle'r Ysgol**

- *RHAID I DREFNYDD POB TAITH LENWI FFURFLEN EV1+ LLUNIO ASESIADAU RISG.*

- *Swyddog Teithiau Addysgiadol:* Mrs Sara Thomas *gyda chymorth gweinyddol Ms Catrin Eluned Jones*

- *Casglu gwybodaeth am y wibdaith. (gweler "Trefnu ymweliadau / teithiau - Gofynion Cyfreithiol").*

- *Cwblhewch Ffurflen Gais (taflen glas) a'i chyflwyno i'r Pennaeth (JC)).*

- *Derbyn caniatâd y Pennaeth (SAT) cyn gwneud trefniadau.*

- *Rhaid llenwi ffurflen EVOLVE (ar lein) ar gyfer pob taith gyda disgyblion oddi ar safle'r ysgol.*
- *Gwneud Asesiad Risg ar gyfer y Wibdaith.*
- *Posteri a chyhoeddiadau i hysbysebu'r daith.*
- *Trefnu cyfarfod i'r disgyblion.*
- *Hysbysu'r rhieni o fanylion angenrheidiol y wibdaith (taflen 2).*
- *Casglu atebion a blaendal.*
- *Trefnu casglu gweddill y taliad.*
- *Dosbarthu ffurflenni caniatâd a manylion meddygol (taflen 3) a'u casglu.*
- *Cwblhau'r trefniadau. (Bydd angen noson rhieni os yw'n weithgaredd tramor a chytundeb ymddygiad.)*
- *Rhoi gwybod i'r Ffreutur am y ddyddiad(au) os yw disgyblion yn colli cinio*
- *Cyflwyno mantolen gyflawn ynghyd â derbyniadau o fewn 4 wythnos yn dilyn y gweithgaredd i CEJ →SAT.*

Profiad Gwaith.

- Y mae'r ysgol yn cyflogi Cyd-gysylltydd Profiad Gwaith (SO) sy'n gyfrifol am leoli disgyblion ar Brofiad Gwaith.
- Mae'r cyd-gysylltydd yn cydweithio gyda Gyrfau Cymru a'r TARh.
- Mae'r cyd-gysylltydd yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r holl ofynion, cwblhâd yr holl ddogfennaeth sy'n cynnwys llunio'r Asesiadau Risg perthnasol.

Cymorth Cyntaf

- Y mae gan yr ysgol Swyddog Cymorth Cyntaf i fod ar gael yn ystod y diwrnod ysgol i gyflwyno CC i bawb - staff a disgyblion ac ymwelwyr.
- Y mae'r staff wedi eu hysbysu o bwy sy'n gyfrifol a sut i gysylltu mewn argyfwng.
- Y mae Beth Lewis, Catrin Jones, Susan Clement a Anne Ivey wedi derbyn y cwrs CC dwys 3 diwrnod. Y mae'r gymhwyster yn gyfredol – adolygiad pob tair blynedd.

Canllawiau Mewn Argyfwng

- Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau gwacau mewn argyfwng ac yn gweithredu drill gwacau (tân) o leiaf unwaith pob tymor.

- Mae'r ysgol yn dilyn polisi cloi-lawr ac yn gweithredu drill yn rheolaidd. Mae'r staff yn ymwybodol o gynnwys y polisi.

- Y mae gan yr ysgol **Gynllun Parhad Busnes/Tywydd Garw** – sy'n cynnwys canllawiau cau'r ysgol mewn argyfwng ac os yn berthnasol, trefniadau parhau gydag addysg disgyblion os yw'r cau am gyfnod hir. Mae'r ysgol eisoes wedi hysbysu'r staff o gynnwys y Cynllun fesul y **Bwletin I&D mewnol**.

Rhoi Moddion (Rheoliadau cyflwyno cyffuriau i ddisgyblion)

- Mae'r Swyddog Cymorth Cyntaf yn cyflwyno'r cyffur Ritolin a chwistrelliad EPI Pen gogyfer ag alergeddau difrifol ar ran y rhieni dim ond os oes caniatâd ysgrifenedig y rhieni wedi ei ddiogelu o flaen llaw.

- Cedwir y gwaith papur yn ddiogel yn y brif swyddfa dan ofal y swyddog Cymorth Cyntaf.

Tywydd Garw

- Y mae gan yr ysgol Brotocol Tywydd Garw i'w ddilyn - gweler y ddogfen sydd wedi ei ddiweddaru - Hydref 2026 ac sydd eisoes wedi ei ddosbarthu i'r staff fesul **y Bwletin I&D mewnol.**

- Y Mae'r **Cynllun Parhad Busnes** yn cynnwys yr holl wybodaeth.

Trais yn y gweithle

- Y mae gan yr ysgol Asesiad Risg sy'n berthnasol i bob sefyllfa.
- Y mae staff eisoes wedi derbyn canllawiau ar sut i ddelio gyda Thrais ac Ymosodiad yn y gweithle a'r hyn y disgwylir oddi wrthynt.
- Trefnir hyfforddiant yn ol yr angen yn meysydd risg uchel.

Traffig ar y Safle

- Y mae gan yr ysgol Asesiad Risg.

- Mae'r ysgol yn cyflogi Swyddog Diogelwch er sicrhau nid oes traffig a disgyblion/staff yn symud ar yr un pryd neu o leiaf heb wyliadwriaeth fanwl.

Trefniadau BWS Mini

- Y mae gan yr ysgol ddau fws mini sydd wedi eu lesio drwy'r Sir.

- Y mae cynnal a chadw'r bysus yn digwydd pob tri mis (yn arferol yn ystod cyfnod gwyliau ysgol) gan y Sir.

- Dychwelir y ddau fws i ganolfan drafnidiaeth y Sir yn Pipehouse Wharf, Abertawe er mwyn i'r gwaith cynnal a chadw cymryd lle.

- Y mae gan yr ysgol gyd-gysylltwyr (CEJ/MF/SV/ME/GR) o ran y bysus mini sy'n trefnu'r cynnal a chadw, treth/MOT, yswiriant (drwy'r Sir), diogelwch y bysus ar y safle, aelodaethyr AA o ran adfer y bysus mini mewn argyfwng o dorri lawr.

- Y mae gan yr ysgol gofrestr o yrwyr swyddogol sydd wedi derbyn a llwyddo'r prawf MiDAS i yrwyr bysus mini. Mae staff yn ymwybodol o'r angen i ddarparu manylion trwydded yrru cyn derbyn caniatad i yrru.

- Mae'r cyd-gysylltydd yn monitro defnydd y bysus, a sicrhau fod pob aelod o'r staff sy'n gyrru'r bysus wedi cofnodi'r manylion perthnasol yn y llyfr log cyn ac ar ôl pob taith ac yn dilyn y drefn sydd wedi ei osod gan yr ysgol.

- Y mae'r ysgol yn dilyn canllawiau'r Sir o ran gwirio diogelwch cyflwr y bysus yn ddyddiol a chyflogir staff at y pwrpas hwn.

- Mae Staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel gyrwyr i ddilyn y rhestr gwrio cyn cychwyn pob taith – mae'r wybodaeth wedi ei drosglwyddo at sylw staff fesul y **Bwletin I&D mewnol**.

Nwy/Trydan

- Y mae gwirio blynyddol yn digwydd drwy'r AALl fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

- Cedwir y dogfennau yn ymwneud a Thrydan yn ganolog yn y Sir a chedwir y dogfennau yn ymwneud a Nwy yn yr ysgol dan ofal y Rheolwr Safle.

- Anogir staff i adrodd 'nôl ar unrhyw ddiffygion o fewn yr Adran fel mater brys.

Profi PAT

- Y mae'r ysgol yn cyflogi cwmni arbenigol allanol i wirio holl declynnau/offer trydanol yr ysgol yn flynyddol. Trefnir y gwaith gan y swyddog PAT

- Mae'r staff yn ymwybodol i beidio defnyddio teclyn/offer trydanol os nad oes sticer arno a'r dyddiad yn gyfredol o ran y profi PAT. Hysbyswyd staff o'r wybodaeth yma drwy'r **Bwletin I&D mewnol.**

Cynnal a Chadw Offer

- Y mae'r ysgol yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau PUWER a LOLER wrth gynnal a chadw holl offer perthnasol yr ysgol fel rhan o gynllun SLA y Sir.

Asbestos

- Y mae gan yr ysgol **Gofrestr Asbestos** sy'n cynnwys gwybodaeth/lluniau lleoliadau Asbestos ar y safle.

- Mae'r Gofrestr wedi ei baratoi/lunio gan yr Awdurdod Leol.

- Y mae gan yr ysgol **Asesiad Risg Asbestos a Chynllun Rheoli Asbestos (diweddarwyd Haf 2026**).

- Cyfeirir pob contractwr at y Gofrestr Asbestos cyn cychwyn ar unrhyw waith.

- Dim ond y Pennaeth neu gynrychiolydd (Rheolwr Safle/Rheolwr Cyfleusterau) sy'n medru estyn caniatâd i gontractwyr gychwyn ar unrhyw waith ar y safle.

- Y mae pob aelod o'r staff yn cynnwys staff glanhau, y staff gegin, staff dysgu a chynorthwyol yn ymwybodol o leoliad yr Asbestos sydd ar y safle – hysbysir staff yn rheolaidd drwy'r **Bwletin I&D mewnol.** Gweler y dogfennau perthnasol.

Legionella

- Y mae gan yr ysgol **Asesiad Risg Legionella**.

- Y mae'r Rheolwr Cyfleusterau yn profi'r dŵr unol â chanllawiau'r Sir.

- Y mae'r Rheolwr Cyfleusterau yn cwblhau'r holl waith papur ac yn cyd-gysylltu'n rheoliad gyda swyddogion Legionella'r Sir.

- Derbynnir cyngor arbennigol gan y Sir ar unrhyw fater yn ymwneud a dŵr - cyflenwadau dŵr yfed ac i'r tapiau/cawodydd dŵr poeth/systemau pipellau dŵr yr ysgol.

- Rhedir y dŵr ar ôl pob cyfnod gwyliau lle y bu'n segur am gyfnod hir.

Cydymffurfio gyda gofynion y Sir ar Bartneriaeth, Cydymffurfiaeth ac Enw Da

- Y mae'r Rheolwr Safle/Rheolwr Cyfleusterau yn cyd-weithio ar lefel dyddiol gyda Swyddogion y Sir er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ym mhob ffordd.

Diwylliant I&D

- Dosberthir **Bwletin I&D mewnol** yn gyson er mwyn hysbysu staff o faterion

cyfredol I&D.

- Paratoir y Bwletin gan y Swyddogion sydd â chyfrifoldeb am faterion Iechyd a Diogelwch yr ysgol er mwyn tynnu sylw at holl faterion statudol I&D yn cynnwys y materion mwyaf diweddar/cyfredol.

- Croesawir adborth ynglŷn ag unrhyw fater sy'n peri gofid oddi wrth staff ar lafar neu trwy e-bost.

- Hybir awyrgylch agored/tryloyw mewn perthnasedd a phob elfen o faterion I&D yr ysgol a gweitherdur Polisi Drws Agored I'r TRU ar unrhyw fater I&D sy'n peri gofid.

- Adolygir gweithdrefnau I&D yr ysgol yng ngoleuni adborth wrth staff - os yn berthnasol.

Hyfforddiant

- Darperir hyfforddiant yn ôl yr angen ac yn unol â gofynion yr Asesiadau Risg.

- Anogir staff i gyflwyno ceisiadau am eu gofynion hyfforddiant - fesul **y Bwletin I&D mewnol.**

- Bydd hyfforddiant TÂN rhithiol yn cymryd lle I staff newydd yn ol yr angen.

Camerâu diogelwch

- Y mae gan yr ysgol gamerâu diogelwch allanol yn ogystal â rhai mewnol wedi eu lleoli mewn lleoliadau risg uchel.

- Y mae gan yr ysgol Swyddog sy'n rheoli materion sy'n ymwneud a'r camerâu (TM) ac sy'n delio gyda'r holl ddata er sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r gyfraith a Rheoliadau'r Sir/Ysgol.

- Y mae prif swyddfa'r ysgol yn monitro'r gatiau allanol ac ambell ardal arall (risg uchel) ar fonitor sydd wedi ei leoli yn y dderbynfa.

- Darperir manylion i'r heddlu yn ôl yr angen.

Diogelwch y Safle

- Y mae'r Rheolwr Cyfleusterau yn cymryd gofal am ddiogelwch y safle ac yn dirprwyo'r gwaith yn ôl yr angen.

- Y mae'r Rheolwr Cyfleusterau yn cymryd gofal am gontractwyr/swyddogion profesiynol sy'n ymwneud a'r adeiladau tra ar safle'r ysgol.

- Y mae gan yr ysgol drefniadau mewn lle er sicrhau diogelwch y safle/eiddo'r ysgol yn dilyn y diwrnod ysgol pan mai ond y glanhawyr sy'n bresennol neu yn ystod cyfnodau gwyliau.

- Y mae gan yr ysgol CCTV mewn nifer o'r ardaloedd ac yn bwriadu ychwanegu camerau yn ol yr angen yn y lleoedd strategol.

- Y mae gan yr ysgol gatiau/ffens flean sy'n tywys ymwelwyr I mewn I'r brif fynedfa. Ni does modd I ymwelwyr fyned I mewn I ardaloedd eraill ar draws yr ysgol onid yn gwneir hyn drwy'r dderbynfa.

- Y mae gan yr ysgol declynau mag-locks sy'n rheoli diogelwch y block dysgu dyniaethau a blociau addysgu Mathemateg ac Ganolfan Waith y 6ed rhag I dresbaswyr fyned oddi ar y llwybr gyhoeddus/yr heol a myned i mewn I'r ysgol.

- Y mae gan yr ysgol declyn llais (intercom) wrth y drws flaen. Rheolir yr intercom gan y derbynydd a holir pob ymwelydd a'r ysgol o flaen llaw ynglyn a beth yw busnes yr ymwelydd yn yr ysgol.

Monitro Iechyd

- Mae'r ysgol yn ymrwymo i gydweithio gyda'r Sir ar fonitro iechyd – os yn berthnasol i weithwyr yr ysgol.

- Hysbyswyd staff o drefniadaeth newydd y Sir - staff DT (dwst), staff Gwyddoniaeth (cemegau), staff safle (peryglon gwaith safle yn cynnwys asbestos).

- Y mae'r ysgol wedi cwblhau'r ffurflenni perthnasol yn codi ymwybyddiaeth yr Awdurdod o'r peryglon.

ADOLYGWYD: Medi 2025

Arwyddwyd/Signed : Pennaeth/Headteacher	Sara Thomas
Dyddiad/Date:	1/9/2026
Arwyddwyd/Signed : Cadeirydd/Chair	A.M. Williams
Dyddiad/Date:	1/9/2026

